sir ddinbych Cyngor
denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 13 Hydref 2020 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Alan Smith, Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes |
| **Awdur yr Adroddiad** | Nicola Kneale, Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol / Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad |
| **Teitl** | Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2019 - 2020 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn cyd-fynd ag Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2019 – 20, y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref bob blwyddyn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

1.2 Y llynedd cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf ac roedd yn cynnwys ein diweddariad chwarter 4 ar y Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, oherwydd effaith Covid-19, cafodd yr adroddiad hwn ei oedi, felly mae bellach hefyd yn cynnwys chwarter 1 ble mae'r wybodaeth ar gael, ac yn ceisio dangos yn arbennig sut mae'r cyngor wedi cynnal gwasanaethau allweddol, a mwy, er budd ein trigolion yn ystod y pandemig.

1.3 Yn ogystal â rhoi ein dadansoddiad chwarterol a diwedd blwyddyn, mae prosiectau penodol i'w cyflawni yn 2020 a 2021 hefyd wedi eu hamlygu, gan gynrychioli ein Dogfen Gyflenwi Flynyddol.

1.4 Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol hefyd yn cynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o gynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau corfforaethol o bortffolio ehangach y Cyngor (h.y. nid yw o reidrwydd yn gyfyngedig i brosiectau'r Cynllun

Corfforaethol). Mae hyn yn cydnabod bod gwasanaethau yn gwneud gwaith pwysig y tu allan i'r Cynllun Corfforaethol sydd o fudd i drigolion.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth ynghylch cynnydd y cyngor o ran cyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol yn chwarter 4, 2019 i 2020, a chwarter 1, 2020 i 2021, gan fodloni ein rhwymedigaeth statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad erbyn 31 Hydref. Mae hyn hefyd yn cyflawni ein dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011 i gyhoeddi cynnydd yn erbyn amcanion cydraddoldeb, y mae Sir Ddinbych wedi ei gynnwys o fewn ei Gynllun Corfforaethol.

2.2 Rhoi gwybod i aelodau am brosiectau'r Cynllun Corfforaethol y bwriedir eu cyflawni yn 2020-21, y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyhoeddi i fodloni ei ddyletswydd gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

2.3 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter blwyddyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ac yn llunio Adolygiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.

2.4 Mae'n rhaid gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2019-20.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newidiadau cytunedig, bod y Cyngor yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2019-20.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 yn gosod y cyfeiriad strategol i'r cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodir y manylion ynglŷn â'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i geisio cyflawni'r

blaenoriaethau hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol. Mae'r prosiectau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad, y Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol.

4.2 Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn yn ystod 2019-20 ac ar gyfer chwater 1 2020-2021, a p'un ai yw'r Cyngor wedi llwyddo i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus. Mae hefyd yn edrych ymlaen at beth fydd yn cael ei gyflawni yn 2020-21.

4.3 Mae Atodiad I yn cynnwys naratif am gynnydd o ran darparu ein blaenoriaethau corfforaethol, gan gynnwys y statws presennol a chynnydd y rhaglen. Mae astudiaethau achos, a gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy ac amrywiaeth a chydraddoldeb hefyd wedi'u cynnwys yn isadran pob blaenoriaeth gorfforaethol. Mae'r Gofrestr Prosiectau Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yng nghefn y ddogfen.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y cyngor o ran y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol ei hun, ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun yn Hydref 2017. Bydd prosiectau / rhaglenni gwaith unigol o fewn y Cynllun Corfforaethol wedi eu hasesu yn unigol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad wedi'i ddatblygu gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Mae'r wybodaeth ynglŷn â pherfformiad sy'n cael ei chynnwys o fewn y ddogfen wedi ei darparu gan wasanaethau, ac mae wedi ei chymryd o'r system reoli perfformiad Verto. Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT), y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai methu â chyhoeddi'r Adolygiad Blynyddol erbyn 31 Hydref yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da'r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy'n cael ei chefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.